Canolradd (Gogledd)

Chwarae'r Gêm - Act 8

(Nodyn i'r Tiwtor: Os dach chi'n dilyn Cwrs Canolradd CBAC (y gogledd) mi fydd y ddrama hon yn addas unrhyw bryd ar ôl Uned 11.)

Yn fflat Michael ac Anwen. Mae Anwen wedi bod yn aros am Michael.

Anwen: Michael! Lle 'wyt ti wedi bod? Mae pawb yn chwilio amdanat ti! Mae Cynhadledd i'r Wasg y pnawn 'ma am bedwar.

Michael: Dw i'n gwybod am y Gynhadledd. Dw i ddim yn mynd. Wnei di ffonio i ymddiheuro?

Anwen: Ymddiheuro am be', Michael? Ymddiheuro dy fod di'n sâl? Ymddiheuro dy fod di'n rhy brysur?…..O na…sori. Ti ydy'r capten… Ymddiheruo dy fod di'n gamblo bob nos, efallai, ac yn prynu chwaraewyr….?

Michael: Cau dy geg, wnei di?

Anwen: Mae'n rhaid i ti fynd. Mi fydd pawb yn aros amdanat ti.

Michael: Wel, fydda i ddim yno.

Anwen: Hy! Fi, fi, fi! Mae'n rhaid i ti feddwl amdana i hefyd, Michael.

Mae Michael yn agor ei ffôn symudol.

Anwen: Be' wyt ti'n wneud rŵan?

Michael: Dw i'n mynd i anfon nodyn at Gadeirydd y clwb i ddweud fy mod i'n sâl ac wedyn dw i'n mynd i bacio. Dw i'n mynd i'r Eidal heno.

Anwen: Cachgi!

Michael: Cachgi? Anwen! Mae arna i bres mawr i'r Casino. Mae'n rhaid i mi fynd.

Anwen: Mae arnat ti rywbeth i mi hefyd, Michael. Fi ydy dy chwaer di!

Michael: Dw i wedi dweud wrthot ti. Mae'n rhy beryglus i mi aros.

Anwen: A be' amdana i?

Michael: Wyt ti isio dŵad?

Anwen: Nac ydw. Dw i isio i ti fynd i'r Gynhadledd. Dw i isio i ti ddweud POPETH wrth y Cadeirydd a dw i isio i ti ofyn am help yr heddlu.

Michael: Anghofia amdana i, Anwen. Dw i'n mynd i'r Eidal a does 'na ddim pwynt dŵad i chwilio amdana i.

Geirfa

Cachgi – Coward

Rhy beryglus – too dangerous